

CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

Adroddiad i'r: Cabinet

Dyddiad y cyfarfod: 7 Tachwedd 2023

Teitl: Ffyrdd Preswyl Newydd i'w mabwysiadu:
Maes yr Halen, Cross Inn (ED4069)

Pwrpas yr adroddiad: Argymhell y dylai'r ffordd a nodwyd isod gael ei mabwysiadu fel ffordd caiff ei chynnal a'i chadw ar gost y cyhoedd.

I'w: Benderfynu

Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:

Y Cynghorydd Keith Henson, Aelod Cabinet ar gyfer Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol a Rheoli Carbon

Cyflwyniad

Mi wnaeth y datblygwr a oedd yn gyfrifol am adeiladu ffordd y stâd sy'n gwasanaethau nifer o anheddau a adeiladwyd o dan ganiatâd cynllunio A040851 lofnodi Cytundeb Adran 38 Deddf Priffyrdd 1980 gyda'r Cyngor sy'n golygu fod y Cyngor yn cytuno i gynnal a chadw'r briffordd ar gost y cyhoedd ar yr amod ei bod wedi ei hadeiladu yn unol â lluniadau a manylion a gymeradwywyd gan y Cyngor.

Gwnaed archwiliad terfynol o'r safle gan Swyddogion ar 12/09/2023 ac roedd yr holl ddiffygion a glustnodwyd ar ôl terfyn y cyfnod cynnal a chadw o 12 mis wedi eu hunioni at foddhad y Cyngor.

Mae'r adroddiad Cabinet yma'n nodi'r asedau priffyrdd ychwanegol caiff eu hargymhell i'w cynnal a'u cadw ar gost y cyhoedd a'r pwerau deddfwriaethol sy'n berthnasol i wneud hynny.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

A oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os nad oes, nodwch pam.

Nid oes newid i'r gwasanaeth na pholisi— Nid oes angen AEI.

Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:

Hirdymor: Amherthnasol

Cydweithio: Amherthnasol

Cynnwys: Amherthnasol

Atal: Amherthnasol

Integreiddio: Amherthnasol

Argymhelliad:

Argymhellir fod ffordd y stâd *Maes yr Halen, Cross Inn, Ceinewydd* fel y nodwyd ar y cynllun yn Atodiad A yr adroddiad yn cael ei mabwysiadu fel priffordd caiff ei chynnal a'i chadw ar gost y cyhoedd o dan ddeddfwriaeth Adran 38 ac Adran 278 Deddf Priffyrdd 1980.

Rheswm dros y penderfyniad:

Caniatáu i'r ffordd gael ei chynnal a'i chadw ar gost y cyhoedd a sicrhau llesiant i'r dyfodol i'r cyhoedd fydd yn defnyddio'r ffordd.

Trosolwg a Chraffu:

Amherthnasol

Fframwaith Polisi:

Creu gwell ffyrdd a ffyrdd mwy diogel

Amcanion Llesiant Corfforaethol:

- Hybu'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth
- Creu cymunedau gofalgar ac iach
- Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd a galluogi pobl o bob oed i ddysgu
- Creu cymunedau cynaliadwy a gwyrdd sydd wedi'u cysylltu'n dda â'i gilydd

Goblygiadau Ariannol a Chaffael:

Cyllideb Cynnal a Chadw Priffyrdd, SSA Ychwanegol.

Goblygiadau Cyfreithiol:

Deddf Priffyrdd 1980

Goblygiadau Staffio:

Dim

Goblygiadau Eiddo / asedau:

Caiff yr asedau priffyrdd canlynol eu hychwanegu at y rhestr o asedau caiff eu cynnal a'u cadw gan y Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol:

Llwybr Troed	210 m
Ochr clawdd	Dim.
Priffordd	150 m
Strwythurau	Dim.
Colofnau Golau	7.

Risq(au):

Dim

Pwerau Statudol:

Adran 278 ac 38 Deddf Priffyrdd 1980

Papurau Cefndir:

Dim

Atodiadau:

Atodiad A – Cynllun Effaith Priffyrdd – Maes yr Halen

Swyddog Arweiniol Corfforaethol:

Rhodri Llwyd, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol

Swyddog Adrodd:

Steve Hallows, Rheolwr Gwasanaeth - Adran Briffyrdd

Dyddiad:

4 Hydref 2023



Maes yr Halen, Cross Inn, New Quay

Graddfa / Scale: 1:250
Argraffwyd ar / Printed on: 2023-10-03
© Hafwaink y Goron a hawlau cronfa ddata 2023 Arolwg Ordnans 100024419
© Crown copyright and database rights 2023 Ordnance Survey 100024419
© Hafwaink a hawlau cronfa ddata cyfnewtiedig Ty Gwybodaeth ar Lywodraeth Lel 2023 100024419
© Local Government Information House Limited copyright and database rights 2023 100024419
© Geotrapping plc 2000 | © COWI / Blausky 2005
© Next Perspective, Welsh Government 2009, 2013, Llywodraeth Cymru 2009, 2013

Legend

Adoptable Highways

- Footpath
- Verge
- Carriageway
- Adoptable Extents



Gorlan

Dôl Alen

Castell

Ty-Clyd

3

7

Sinks

Haulwen

Cilmeri

Ty Cornel

Lon Rhydalén

Maes yr Halen

Glas

2

1

141.5m

Delta One

12

Pendre

Arms (PH)

Brynalen

Arwel

Ardwyn

Cartrefle

Bettina Lodge

